Gêmau bwrdd

Gwnewch fwrdd fel hwn. Mae'r rhifau mewn trefn wahanol i'r arfer, ond bydd y gêm yn gweithio o hyd os byddwch yn defnyddio bwrdd nadredd ac ysgolion arferol.



- Rholiwch y dis ddwywaith. Adiwch y ddau rif.
- Symudwch ymlaen yn ôl y rhif hwnnw. Cyn symud, mae'n rhaid i chi gyfrifo pa rif y byddwch yn glanio arno.
- Os ydych chi'n anghywir, chewch chi ddim symud!
- Y cyntaf i ddiwedd y bwrdd sy'n ennill.

Am newid, gallwch rolio'r dis a symud am yn ôl. Neu gallwch rolio'r dis unwaith, yna symud ymlaen yn ôl y rhif sydd, gyda'r rhif ar y dis, yn gwneud 10, e.e. taflu 3, symud 7.

Triawdau mewn cylchoedd

Tynnwch lun pedwar cylch ar ddarn o bapur. Ysgrifennwch bedwar rhif rhwng 3 ac 18, un ymhob cylch.



- Cymerwch eich tro i rolio'r dis dair gwaith ac adiwch y tri rhif.
- Os yw'r cyfanswm yn un o'r rhifau yn y cylchoedd, gallwch ei ddileu.
- Y cyntaf i ddileu pob un o'r pedwar cylch sy'n ennill.

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 2

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathmeteg eich plant

Targedau – Blwyddyn 2 3

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …

- ☐ Cyfrif hyd at 100 o leiaf, a darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100.
- ☐ O gael unrhyw chwe rhif hyd at 100, eu rhoi mewn trefn.
- ☐ Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul un neu fesul deg o unrhyw rif dau ddigid, e.e. *dau ddeg chwech, tri deg chwech, pedwar deg chwech …*
- ☐ Adnabod odrifau ac eilrifau.
- ☐ Adio a thynnu rhifau dan 20 yn eu pen.
- ☐ Gwybod parau rhif 'degau' sy'n gwneud 100, e.e. 30 + 70.
- ☐ Dyblu a haneru rhifau bach, e.e. dwbl 9 yw 18, a hanner 18 yw 9.
- ☐ Gwybod tabl 2 a 10 ar eu cof.
- ☐ Cyfrifo cyfanswm gwerth llond dwrn o ddarnau arian hyd at £1.
- ☐ Mesur neu bwyso gan ddefnyddio metrau, centimetrau, cilogramau neu litrau.
- ☐ Defnyddio pren mesur i dynnu a mesur llinellau i'r centimetr agosaf.
- ☐ Dweud faint o'r gloch yw hi i'r hanner awr a chwarter awr.
- ☐ Enwi a disgrifio siapiau 2-D a 3-D cyffredin.
- ☐ Datrys problemau rhif syml, ac egluro eu dull gweithio.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 2.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif hyd at 100 yn dal i gael trafferth i ddweud beth sy'n dod ar ôl 47 neu pa rif sy'n dod o flaen 50.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref



Mathemateg siopa

Ar ôl bod yn siopa, dewiswch 6 eitem wahanol a phob un yn costio llai na £1. Gwnewch label pris ar gyfer pob un, e.e. 39c, 78c. Shifflwch y labeli. Yna gofynnwch i'ch plentyn wneud un neu fwy o'r rhain

- Dodi'r labeli mewn trefn, gan ddechrau gyda'r isaf.
- Dweud pa bris sy'n odrif a pha bris sy'n eilrif.
- Adio 9c at bob pris yn eu pen.
- Tynnu 20c o bob pris yn eu pen.
- Dweud pa ddarnau arian sydd eu hangen i dalu'n union ar gyfer pob eitem.
- Dewiswch unrhyw ddwy eitem, a chyfrwch cyfanswm y gost.
- Cyfrifwch faint fydd y newid o £1 ar gyfer pob eitem.

Llinellau syth

Dewiswch 4 hyd gwahanol rhwng 5 ac 20 centimetr. Defnyddiwch bren mesur wedi'i farcio mewn centimetrau. Tynnwch linell o bob hyd.